Er ein prysurdeb roedd dal cyfle yn ystod y flwyddyn i gryfhau rhai rhannu o'r gwaith ac roedd yn dda derbyn cefnogaeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer ein gwaith gyda mamau o Ogledd Cymru yng Ngharchar Styal.

Eleni gwelwyd cynllun Cam Nesaf yn datblygu yn llwyddianus ac yn cynnig rhaglen rhiantu i dadau treisgar, ac rydym yn edrych ymlaen i barhau i ddatblygu y cynllun i gynnwys mamau treisgar mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol.

Hoffwn ddiolch i'r staff am eu brwdfrydedd ac i'r Bwrdd am eu cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

Val Owen

# Y BONT

CYFRIFON ARIANNOL AM Y FLWYDDYN I'R 31ain MAWRTH 2023

Rhif Elusen:- 517629

A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON

# Y BONT

## CYFRIFON ARIANNOL AM Y FLWYDDYN I'R 31ain MAWRTH 2023


| | |
|---|---|
| Datganiad O Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr | 1 |
| Adroddiad yr Archwilwyr | 2 - 3 |
| Datganiad O'r Gweithgareddau Ariannol | 4 |
| Mantolen | 5 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 6 - 9 |

# Y Bont
## Datganiad O Gyfrlfoldebau'r Ymddiriedolwyr

Y mae yn ofynnol i ni baratoi cyfrifon pob blwyddyn sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r cyfrifon mae rhaid i ni;

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;

- datgan os ydi'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;

- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol yr elusen. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad:

____________________

Drwy orchymyn y bwrdd

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Y Bont (yr 'Elusen') am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 2023 sydd yn cynnwys y Datganiad Incwm, Y Fantolen ar nodiadau i'r Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi y cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbyniwyd yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

-rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Elusen ar Fawrth 31, 2023 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;

-wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig.

-wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Elusennau 2011.

## Sail Ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC ynghyd a'r darpariaethau ar gael i unedau llai, yn yr amgylchiadau amlinellir yn nodyn 1 or datganiadau ariannol,ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer sail ein barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod y Ymddiriedolwyr yn defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni i barhau fel busnes byw ar gyfer cyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol ac ein Adroddiad yr Archwilwyr arno.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o farn sicrwydd arno. Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gasglwyd yn yr archwiliad neu fel arall ymddengys ei fod wedi ei gamddatgan yn faterol. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i berfformio, rydym yn casglu bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad,

nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.
Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurwyd yn fwy llawn yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 1, yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn dangos darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.
Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes byw gan ddatgelu materion ble'n berthnasol,materion cysylltiedig i'r sail busnes byw ar defnydd o'r sail cyfrifyddu busnes byw oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu dod a gweithrediadau i ben neu os does dim dewis realistig arall ond i wneud hynny.

**Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein amcanion yw casglu sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn sylweddol pe bai, yn unigol neu ar y cyfan, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a gymerwyd gan defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi ei leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yma yn ran o Adroddiad yr Archwilwyr.
Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan achosi twyll:
Rydym wedi asesu'r risg i'r datganiadau ariannol o fod yn agored i gamddatganiad perthnasol yn isel. Credwn fod y gwaith archwilio a wneir yn ddigonol i nodi camddatganiad perthnasol. Y Rheolau allweddol sy'n effeithio ar allu'r cwmni i fasnachu yw cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau. Nid ydym wedi nodi neu gael gwybod am dwyll gwirioneddol neu amheuaeth o dwyll neu achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau allweddol.
Barnwyd bod profiad y tîm archwilio yn ddigonol i nodi twyll neu wallau yn yr apwyntiad yma.

**Defnydd o'r adroddiad**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, yn unol ac adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a amlinellwyd yn adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae'n gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r elusen fel sefydliad am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn nac ychwaith am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

**A. Hughes Jones Dyson A'u Cwmni**
**Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig** Dyddiad
**Capel Morela, South Penrallt, Caernarfon Gwynedd.**

Mae A. Hughes Jones Dyson au Cwmni yn gymwys i weithredu fel archwilwyr o dan adran 1212 o Ddeddf Cwmniau 2006

**Datganiad O'r Gweithgareddau Ariannol Am Y Flwyddyn I'r 31ain Mawrth 2023**

| | Nodiadau | Cronfeydd Heb eu Cyfyngu | Cronfeydd Wedi eu Cyfyngu | **Cyfanswm 2023** | Cyfanswm 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | £ | £ | **£** | £ |
| Cymynroddion a Rhoddion | 3 | - | - | - | 12,685 |
| Gweithgareddau Masnachu Eraill | 5 | 1,700 | - | **1,700** | 1,500 |
| Incwm buddsoddiadol | | 82,905 | - | **82,905** | 58,833 |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | 491,700 | - | **491,700** | 531,960 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 576,305 | - | **576,305** | 604,978 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Codi Arian | 7 | 27,137 | - | **27,137** | 26,008 |
| Gweithgareddau Elusennol | 6 | 556,976 | - | **556,976** | 453,476 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 584,113 | - | **584,113** | 479,484 |
| **Incwm Net** | | (7,808) | - | **(7,808)** | 125,494 |
| (Colledion)/Enillion buddsoddiadol | | (281,590) | - | **(281,590)** | 277,215 |
| **Symudiad Net Mewn Cronfeydd** | | (289,398) | - | **(289,398)** | 402,709 |
| **Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | | 4,053,427 | 339,203 | **4,392,630** | 3,989,921 |
| **Cronfeydd i Gario Ymlaen** | | 3,764,029 | 339,203 | **4,103,232** | 4,392,630 |

# Y BONT

## Mantolen ar 31ain Mawrth 2023

| | Nodiadau | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau sefydlog cyffyrddadwy | 8 | | **4,820** | | 6,362 |
| Buddsoddiadau | 11 | | **3,950,037** | | 4,175,943 |
| | | | **3,954,857** | | 4,182,305 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | **125,601** | | 159,612 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **41,707** | | 60,353 | |
| | | **167,308** | | 219,965 | |
| **Rhwymedigaethau** | | | | | |
| Symiau dyledus o fewn un flwyddyn | 10 | **18,933** | | 9,640 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | **148,375** | | 210,325 |
| **Asedau net** | 14 | | **4,103,232** | | 4,392,630 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Heb eu cyfyngu | | | **3,764,029** | | 4,053,427 |
| Wedi eu cyfyngu | 13 | | **339,203** | | 339,203 |
| | | | **4,103,232** | | 4,392,630 |

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar , 2023 ac arwyddwyd ar eu rhan gan

______________________________ Ymddiriedolwr

______________________________ Ymddiriedolwr

## Nodiadau i'r Cyfrifon Am y Flwyddyn i'r 31ain Mawrth 2023

### 1 Polisiau cyfrifyddol

*Cyffredinol*

Paratowyd y cyfrifon yn ôl y confensiwn cost hanesyddol, wedi ei addasu trwy ail-brisio rhai asedau sefydlog. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi yn unol a'r Datganiad Arferion Cyfrifo: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011.
Wrth baratoi y cyfrifon mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried pan yn ymroi i'r polisiau cyfrifo sy'n ofynol gan FRS 102 ar SAA FRS 102 i Elusennau a oedd angen ailddatgan y ffigyrau cymharol. Nid oedd angen ailddatgan.

Mae grantiau yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn dderbyniadwy.

Mae adnoddau sydd yn cael eu gwario yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn ddyledus ac yn cynnwys TAW na all yr Elusen ei hawlio yn ôl.
Mae adnoddau a wariwyd ar Gronfeydd wedi eu Cyfyngu yn ymwneud a gwariant uniongyrchol ar y prosiectau hynny yn unig.

*Dibrisiant*
Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog ar y gyfradd ganlynol,yn seiliedig ar amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, a'u gwerth gweddilliol disgwyliedig:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar | 20% o'r gwerth gostyngol |
| Cyfrifaduron | 25% o'r gwerth gostyngol |

*Buddsoddiadau*
Cynhwysir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth marchnadol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhwysir llogau a difidendau fel incwm buddsoddiadol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

*Archwilwyr*
Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

### 2 Cydnabyddiaeth

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gweithwyr Cyflogedig | **368,906** | 295,777 |
| Yswiriant Gwladol | **31,754** | 27,554 |
| Pensiwn Cyflogwr | **16,727** | 17,564 |
| Costau Archwilwyr | **2,880** | 1,788 |

Ar gyfartaledd, nifer y gweithwyr cyflogedig oedd 13 (2022 12).

## 3 Cymynroddion a rhoddion

| | Cronfeydd Heb eu Cyfyngu | Cronfeydd Wedi eu Cyfyngu | **Cyfanswm 2023** | Cyfanswm 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Eglwysi a Henaduriaethau | - | - | **-** | 185 |
| Cymynroddion a Rhoddion | - | - | **-** | 12,500 |
| | - | - | **-** | 12,685 |

## 4 Incwm o Weithgareddau Elusennol

| | £ | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| Incwm Datrys Gwrthdaro | 340,712 | - | **340,712** | 253,977 |
| Incwm Prosiectau | 27,294 | - | **27,294** | 143,199 |
| Ffioedd Proffesiynol | 122,566 | - | **122,566** | 134,744 |
| Incwm Arall | 1,128 | - | **1,128** | 40 |
| | 491,700 | - | **491,700** | 531,960 |

## 5 Gweithgareddau Masnachu Eraill

| | £ | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhent | 1,700 | - | **1,700** | 1,500 |
| | 1,700 | - | **1,700** | 1,500 |

## 6 Gwariant Ar Weithgareddau Elusennol

| | £ | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau a Pensiwn | 417,387 | - | **417,387** | 340,895 |
| Costau Teithio | 27,953 | - | **27,953** | 7,716 |
| Costau Datrys Gwrthdaro | 21,735 | - | **21,735** | 12,496 |
| Costau Prosiectau | 10,654 | | **10,654** | 20,751 |
| Costau Contractwyr Proffesiynol | 19,126 | - | **19,126** | 17,845 |
| Atgyweirio ac Adnewyddu | 767 | - | **767** | 1,480 |
| Dwr, Gwres a Goleuo | 4,569 | - | **4,569** | 5,077 |
| Rhent | 13,644 | - | **13,644** | 13,503 |
| Yswiriant | 2,266 | - | **2,266** | 2,302 |
| Defnyddiau Swyddfa ac Argraffu | 3,425 | - | **3,425** | 1,446 |
| Teleffon | 4,780 | - | **4,780** | 5,081 |
| Costau Les Offer | 2,863 | - | **2,863** | 3,010 |
| Costau Cyfrifiaduron | 8,147 | - | **8,147** | 4,357 |
| Costau Proffesiynol | 2,291 | - | **2,291** | 2,284 |
| Costau Glanhau | 2,262 | - | **2,262** | 2,294 |
| Hyfforddi | 5,882 | - | **5,882** | 2,430 |
| Costau Cyffredinol | 4,803 | - | **4,803** | 5,780 |
| Costau Cyfreithiol | - | - | **-** | 900 |
| Ffioedd Archwilwyr | 2,880 | - | **2,880** | 1,788 |
| Dibrisiant | 1,542 | - | **1,542** | 2,041 |
| | 556,976 | - | **556,976** | 453,476 |

## 7 Codi Arian

| | Cronfeydd Heb eu Cyfyngu | Cronfeydd Wedi eu Cyfyngu | **Cyfanswm 2023** | Cyfanswm 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | **£** | £ |
| Ffioedd Rheoli HSBC | 27,137 | - | **27,137** | 26,008 |

## 8 Asedau sefydlog a ddefnyddir gan yr Elusen

| | **Dodrefn a Chyfarpar** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | £ | £ |
| Ar 01/04/22 | 81,365 | 81,365 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Ar 31/03/23 | 81,365 | 81,365 |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 01/04/22 | 75,003 | 75,003 |
| Codiant am y Flwyddyn | 1,542 | 1,542 |
| Ar 31/03/23 | 76,545 | 76,545 |
| **Gwerth llyfr net 31/03/23** | **4,820** | **4,820** |
| Gwerth llyfr net 31/03/22 | 6,362 | 6,362 |

## 9 Dyledwyr

| | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Dyledwyr eraill | **124,664** | 158,675 |
| Blaendaliadau | **937** | 937 |
| | **125,601** | 159,612 |

## 10 Rhwymedigaethau

| Symiau dyledus o fewn un flwyddyn: | **£** | £ |
|---|---|---|
| Treth ac Yswiriant Gwladol | **7,852** | 7,852 |
| Credydwyr Eraill | **11,081** | 1,788 |
| | **18,933** | 9,640 |

## 11 Buddsoddiadau

| | Gwerth Marchnadol 31/03/2022 £ | Symudiad Am Y Flwyddyn £ | Enillion(colledion) Buddsoddiadol Na Wireddwyd £ | Gwerth Marchnadol 31/03/2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Banc HSBC | 4,175,943 | 55,684 | (281,590) | **3,950,037** |

Mae buddsoddiadau Banc HSBC wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddiedig.

Cost hanesyddol y buddsoddiadau yn y HSBC Bank Managed Fund oedd £1,650,876.

**12** Mae gan yr Elusen gyfran yn ystad y diweddar Thomas Hughes, sydd yn cynnwys dau o adeiladau yn Lerpwl. Dangosir yr incwm fel a phan wireddir yr eiddo.

## 13 Cronfeydd Wedi Eu Cyfyngu

| | Cronfeydd Ddygwyd Ymlaen £ | Symudiad Mewn Adnoddau Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwydd-iadau Rhwng Cronfeydd £ | Gweddill 31/03/2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Adeilad | 339,203 | - | - | - | **339,203** |

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2014 gwerthwyd adeilad Cartef Bontnewydd. Mae'r arian dderbyniwyd wedi cael ei ymrwymo fel cronfa gyfyngedig ar gyfer prynu adeilad yn y dyfodol.

## 14 Dadansoddiad o'r asedau net rhwng cronfeydd

| | Cronfeydd Heb eu Cyfyngu £ | Cronfeydd Wedi eu Cyfyngu £ | **Cyfanswm 2023 £** | Cyfanswm 2022 £ |
|---|---|---|---|---|
| Asedau cyffwrddadwy sefydlog | 4,820 | - | **4,820** | 6,362 |
| Buddsoddiadau | 3,610,834 | 339,203 | **3,950,037** | 4,175,943 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 41,707 | - | **41,707** | 60,353 |
| Dyledwyr | 125,601 | - | **125,601** | 159,612 |
| Credydwyr | (18,933) | - | **(18,933)** | (9,640) |
| | 3,764,029 | 339,203 | **4,103,232** | 4,392,630 |

**Y BONT**

England & Wales - Charity number 517629

# Accounts

y bont

GWEITHIO GYDA THEULUOEDD
WORKING WITH FAMILIES

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2021 -2022

## Rhif Elusen - 517629

28 Heol y Dŵr
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LR
01286 881620
www.bont.org.uk

**Y Llywydd Cyntaf**

Y diweddar Mr R B Ellis

**Bancwyr**

HSBC, 24 Y Maes, Caernarfon

**Cynghorwyr Buddsoddiadau**

HSBC Investment Bank PLC

6 Bevis Marks, Llundain

**Cyfreithwyr**

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

27 Stryd Bangor, Caernarfon

**Cyfreithwyr Cyflogaeth**

Aaron and Partners

5-7, Grosvenor Court, Foregate St, Caer

**Cyfrifwyr**

Mri A Hughes Jones, Dyson a'u Cwmni

Capel Moreia, De Penrallt, Caernarfon

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Enw'r Elusen yw Y Bont. Fe'i rheolir gan Gynllun y Comisiwn Elusennau dyddiedig 7fed Gorffennaf 1995 fel y cafodd ei addasu ar 7/1/16. Rhif cofrestru'r Elusen yw 517629.

Cyfeiriad cofrestredig yr Elusen yw 28 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd. Mae'r Elusen yn cael ei rheoli gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr sy'n cael eu penodi am dair blynedd mewn Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r sgiliau sydd eu hangen arno cyn hysbysebu a phenodi Ymddiriedolwyr newydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac mae ganddo dri Is bwyllgor, sef Cyllid, Staffio a Sicrhau Ansawdd sy'n cyfarfod yn ystod y flwyddyn fel bo'r angen ac yn adrodd i'r Bwrdd llawn. Mae rheolaeth a gwaith dydd i ddydd yr Elusen yn cael ei ddirprwyo i Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am benodi a gwerthuso gwaith y Prif Weithredwr. Mae'r Bwrdd yn penodi Ymgynghorwyr Annibynnol i'w gynorthwyo fel bo'r angen.

Yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2022 yr Ymddiriedolwyr oedd.

Mr Gwyn Hefin Jones - Cadeirydd
Mr John Pritchard – Trysorydd
Ms Delyth Jones William – Is Gadeirydd
Mrs Cynthia Owen
Dr Mererid Owen
Ms Nia Llwyd
Mr Ioan Pollard
Mr John Pollard
Mrs Gwawr Maelor
Ms Val Williams
Ms Sandra Jones
Ms Delyth Jones William – Is Gadeirydd

Mae pob Ymddiriedolwr yn derbyn pecyn anwytho a hyfforddi fel bo'r angen. Mae pob Ymddiriedolwr yn derbyn copi o holl ddogfennau rheoli'r Elusen.

Mae gan yr Elusen gynllun busnes pum mlynedd sy'n cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiad risg yn flynyddol. Derbynnir mai'r prif risg i'r Ymddiriedolaeth yw colli staff profiadol. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth drafod amodau gwaith a chefnogaeth staff.

Mae gan yr Elusen 12 aelod o staff ac yn cyflogi 3 person ychwanegol ar ffurf sesiynol.

Twf net yr Elusen am y flwyddyn, cyn ystyried y cynnydd mewn gwerth buddsoddiadau, oedd £125,494. Roedd cynnydd yn asedau net yr Elusen o i £3,989,921 i £4,392,630.

Mae'r Elusen yn ddibynnol ar incwm buddsoddiadau ac felly angen cronfeydd sylweddol er mwyn creu'r incwm angenrheidiol. Mae'r Elusen yn ceisio gweithredu o fewn ei hincwm blynyddol heb amharu ar lefel y cyfalaf. Gan y bu twf yn yr incwm net ac yng ngwerth yr asedau llynedd cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r oriau sydd ar gael i staff yn ystod y flwyddyn fel bod mwy o wasanaethau ar gael i blant a'u teuluoedd. Penodwyd 2 aelod newydd o staff llawn amser.

Gan fod yna dwf yn yr incwm net eto eleni, mae'r Bwrdd wedi ystyried parhau i gynyddu oriau staff er mwyn gallu darparu mwy o wasanaethau yn ôl yr angen.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

| | |
|---|---|
| Bancwyr: | HSBC, Caernarfon, Gwynedd |
| Cyfreithwyr: | Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd<br>LLP Caernarfon, Gwynedd |
| Archwilwyr Annibynnol: | A Hughes Jones Dyson a'u Cwmni,<br>Caernarfon, Gwynedd |

**Ein gwaith, ethos, gwerthoedd a gwasanaethau**

Gwaith Elusen Y Bont yw ateb gofynion a darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd, am ba bynnag reswm, yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd, neu mewn perygl o gael eu gwahanu.

ETHOS – Mae ein gwaith bob amser yn ymwneud â:

- Cydnabod hunaniaeth yr unigolyn
- Hybu arfer gwrth-wahaniaethol a gwrth-ormesol
- Hybu, cynnal, a pharchu hawliau a dewis unigolion wrth ddarparu gwasanaethau
- Cefnogi unigolion drwy gyfathrebu effeithiol
- Gweithredu mewn modd nad yw'n feirniadol

GWERTHOEDD – rydym yn sicrhau ein bod yn gweithio yn unol â gwerthoedd y mudiad bob amser, sef:

- Y lle gorau i'r rhan fwyaf o blant fod yw gyda'u teuluoedd
- Mae'r nifer fechan o blant sy'n gorfod byw ar wahân i'w teuluoedd yn haeddu gofalwyr o'r safon uchaf
- Rhaid i ofalwyr dderbyn hyfforddiant o safon uchel er mwyn gallu gwneud eu gwaith
- Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd angen help a chymorth er mwyn magu llais, fel y gallent gyfrannu at gynlluniau a gwasanaethau a allai effeithio ar eu bywydau
- Mae angen i blant gadw cysylltiad â'u gwreiddiau fel y gallent fagu gwydnwch fydd o gymorth iddynt ddelio â'u cefndir ac wynebu eu dyfodol

**Gwasanaethau** – Mae'r gwasanaethau a gynigir yn disgyn i bedwar prif faes.

- Gwasanaethau maethu
- Datrys gwrthdaro
- Cwnsela a gwaith galar
- Hyfforddiant

# Adroddiad y Cadeirydd 2021-2022

Mae'n bleser cael cyflwyno fy adroddiad am y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022. Yn ystod y cyfnod yma 'roeddem yn parhau i weithredu o dan amodau caeth oherwydd effeithiau'r pandemig. Serch hynny llwyddwyd i gynnal gwasanaeth llawn trwy gyfrwng cyfarfodydd rhithiol yn bennaf, gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg sydd ar gael erbyn hyn. Diolch i'r Prif weithredwr, Val Owen, am ei harweiniad ac i'r holl staff am eu gwaith caled ac effeithiol dros y cyfnod yma i gyflwyno gwasanaeth sydd mor bwysig i blant a'u teuluoedd.

Derbyniwyd ymddiswyddiad Y Parch Anna Jane Evans, yr Is Gadeirydd yn dilyn ei sefydlu yn Weinidog Capel Seilo, Caernarfon. Pob dymuniad da iddi yn ei Gweinidogaeth a diolch iddi am ei chyfraniadau unigryw i'r Bwrdd dros sawl blwyddyn a'i chefnogaeth i mi yn yr Is-bwyllgor staffio. Un o'r amcanion a osodwyd gan y Bwrdd y llynedd oedd penodi Ymddiriedolwyr newydd yn dilyn Awdit o ddiddordebau a sgiliau'r Ymddiriedolwyr presennol. 'Rwyf yn falch o groesawu tair aelod newydd i'n plith, sef Sandra Jones, Val Williams a Delyth Lloyd Williams. 'Rydym yn edrych ymlaen at eich cyfraniad i'r Bwrdd ac i'r Is-bwyllgorau. Mae'r newidiadau yma yn golygu fod un sedd wag eto i'w llenwi ar y Bwrdd.

Y llynedd, clywsom am waeledd ein Hymgynghorydd, Mr Malcolm John a'i benderfyniad i ymddeol o'r gwaith. Yn anffodus clywsom am farwolaeth Mr John ym mis Mawrth 2021. Rhoddodd Mr John wasanaeth gwerthfawr i Gartref Bontnewydd ac wedi hynny, Y Bont, am dros chwarter canrif. 'Roedd pawb yn gwerthfawrogi ei natur bonheddig ac addfwyn a'i ddull pwyllog o baratoi a chyflwyno ei adroddiadau i'r staff ac i'r Bwrdd. Cafodd Val, Gwenan a minnau y fraint o gynrychioli'r Bont yn ei angladd yn Nolgellau. Mae'n bleser cael croesawu Ms Iona Griffiths i weithredu fel Ymgynghorydd i'r Bont a dymunwn yn dda iddi wrth ymgymryd â'r gwaith. Yn sicr, gwyddom ei bod yn gyfarwydd iawn â gwaith Y Bont.

Rwy'n falch i adrodd bod Y Bwrdd, yn ystod y flwyddyn, wedi gallu ymateb i'r argymhellion a osododd Mr Malcolm John yn ei adroddiad olaf. 'Rwyf eisoes wedi cyfeirio at benodi Ymddiriedolwyr newydd. Hefyd, llwyddwyd i adolygu a chwblhau'r Llawlyfr Staff a'r dasg o adolygu'r ddogfen Effeithiolrwydd yr Elusen. Paratowyd Cynllun Dilyniant Rheolwyr y Bont ac fel rhan o'r cynllun, penodwyd Gweithiwr Cymdeithasol a Chwnselydd newydd.

Yn olaf, dymunaf ddiolch am gefnogaeth yr Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn ac i'r Prif Weithredwr a'r Staff am eu hymroddiad i wasanaethu plant a'u teuluoedd mewn cyfnod anodd i bawb. Edrychwn ymlaen, gyda hyder, am flwyddyn lwyddiannus i ddod.

Yn gywir,

Gwyn Hefin Jones ( Cadeirydd)

# Adroddiad y Prif Weithredwr

Hoffwn gyflwyno adroddiad blynyddol Y Bont ar ddiwedd cyfnod hynod o anodd, sef ail flwyddyn o'r cyfnod Clo Mawr yn sgil Pandemig Covid 19.

Er bod y cyfyngiadau wedi lleihau yn raddol yn ystod y flwyddyn, mae yna dal angen i addasu ar gyfer y trefniadau newydd, ac i fod yn barod i barhau i addasu fel bo rheolau yn newid yn gyson.

Yr un peth yn sicr yw bod yr angen  am wasanaethau Y Bont yn fwy nag erioed.

Ers peth amser rydym yn ymwybodol fod angen cryfhau ein strwythurau er mwyn cydnabod y cynnydd ychwanegol am ein gwasanaethau. Penodwyd gweithiwr cymdeithasol a cwnselydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn, a chytunwyd i gynnig hyfforddiant pellach i aelodau o staff cyfredol ym maes Cwnsela a Chyfarfodydd Teulu.

Rydym yn parhau i ddatblygu gwasanaethau newydd i ymateb i anghenion teuluoedd a dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cychwyn cynllun Cam Nesaf sef rhaglen rhiantu ar gyfer tadau treisgar. Mae hwn yn wasanaeth newydd i Ogledd Cymru ac yn gweld cydweithrediad newydd rhwng Y Bont a Siroedd Fflint a Wrexham yn ogystal â chryfhau ein partneriaeth a Gwynedd, Conwy a Dinbych.

Yn ystod 2021/22 cefnogwyd 301 o deuluoedd trwy ein gwasanaethau datrys gwrthdaro; Cynhaliwyd 172 cwrs: Darparwyd 17 Rhaglen Tyfu Trwy'r Tymhorau i rieni a chynhaliwyd 20 cyfarfod o'r grwpiau cefnogi gofalwyr maeth ffrindiau a theulu.

Hoffwn ddiolch i'r staff am eu hegni a'u brwdfrydedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ffodus iawn o gael tîm o staff profiadol gyda'r gallu i fod yn hyblyg a'u bod mor barod i addasu a datblygu eu gwaith.

Dymunaf ddiolch i'r Ymddiriedolaeth am ei chefnogaeth ac i Mr Gwyn Hefin Jones am ei gefnogaeth fel Cadeirydd. Mae'n bleser gweithio mewn awyrgylch mor gadarnhaol a chael y cyfle i gyfrannu at wasanaeth môr bwysig â hwn.

**Val Owen**

Prif Weithredwr

## Adroddiad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Bont.

## Cyfnod - Rhagfyr 2021 i ddiwedd Mawrth 2022

### 1. Cyflwyniad

Derbyniais y rôl o Ymgynghorydd Annibynnol i'r Bont ym mis Rhagfyr 2021 ac yn sgil hyn mae'r adroddiad hon yn canolbwyntio ar gyfnod byr o dri mis o'm profiad i fel Ymgynghorydd. Drwy fod wedi gweithio i'r Elusen cyn hyn mae gennyf syniad eithaf o'r datblygiadau a fu dros y flwyddyn a'r hyn fu Malcolm John fy rhagflaenydd yn y rôl yn cynnig ei gefnogaeth a'i arweiniad i Val a chwi fel Ymddiriedolwyr. Bu Malcolm yn Ymgynghorydd am gyfnod maith ac mae'n sicr o fod yn golled i Y Bont ac yn drist i ni ei golli mor fuan ar ôl ei ymddeoliad.

Mae'r flwyddyn dan sylw wedi bod yn un sy'n parhau i fod yng nghysgod effaith Covid-19 a'r ymdrech i ail gychwyn gwasanaethau mor normal ag sy'n bosib i ddefnyddwyr y gwasanaeth ond gan ddysgu o'r gwersi a fu dros gyfnod y pandemig.

### 2. Staff Y Bont

Bu dipyn o fynd a dŵad o ran staffio yn ystod y cyfnod gyda gweithiwr cymdeithasol newydd yn cael ei apwyntio a pheth addasu o ran oriau gwaith staff eraill er mwyn ymgymryd â rôl gweithwyr eraill fu'n symud ymlaen neu'n ymddeol. Un o gryfderau'r gwasanaeth yw'r gallu i roddi sgiliau i'r staff sy'n caniatáu iddynt gamu i mewn neu i fyny i rôl arall yn y modd yma a thrwy hynny feithrin staff a rhoi cyfle iddynt ddatblygu yn eu gyrfa.

Mynychais gyfarfod staff drwy gyfrwng zoom lle y bu cyfle i bawb egluro pwrpas eu rôl a'r gwasanaeth y maent yn darparu, cyfle da iawn o ran cyflwyniad i staff newydd. Yn ogystal bu i mi fynychu'r cyfarfod staff cyntaf yn ôl yn y swyddfa wyneb yn wyneb lle'r oedd pawb yn falch o ddychwelyd i beth normalrwydd.

Credaf fod yma griw o staff brwdfrydig a theyrngar i'r defnyddwyr a'r gwasanaeth. Drwy sgwrsio gyda hwy eu hunain heb y rheolwyr 'roeddent yn hollol bositif ac yn ddiolchgar o'r gefnogaeth yr oeddent wedi ac yn ei dderbyn gan y rheolwyr a'r Ymddiriedolwyr yn arbennig trwy gyfnod anodd y clo pan oedd plant gartref o'r ysgol a'r angen iddynt hwy ddysgu ffordd newydd o weithio gyda'r defnyddwyr. Un enghraifft galonogol oedd sylw gan aelod oedd yn dweud iddi arfer cysidro newid swydd ar ôl cyfnod ond ar ôl symud i weithio yn Y Bont nad oedd bwriad ganddi bellach i edrych ymhellach. Mae'r Prif Weithredwr a'r Rheolwyr Tîm yn llwyddo i ddangos fod ganddynt ffydd yn y staff ac yn gefnogol iddynt.

### 3. Gwasanaethau a thargedau.

O'r adroddiadau ansawdd mae'n amlwg fod Y Bont wedi llwyddo i gyrraedd eu targedau yn y mwyafrif o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac yn y rhan fwyaf wedi darparu mwy na'r targed a osodwyd. Yn ogystal mae'r nifer o holiaduron a gwblhawyd ar gychwyn gwasanaeth yn galonogol iawn, mae'n wybyddus nad yw holiaduron yn cael eu cwblhau gan bawb ar ddiwedd darpariaeth yn gyffredinol ond o bosib fod lle i edrych ar hyn i'r dyfodol. Mae'r

sylwadau gan fynychwyr a rhieni yn galonogol iawn ac yn dangos gwerth y ddarpariaeth ar eu cyfer.

4. **Pwyllgorau Y Bont**

Yr wyf wedi mynychu un cyfarfod o'r Is-bwyllgor Ansawdd yn y cyfnod ers dod i'r rôl hon. Mae'n galonogol gweld fod nifer o argymhellion a godwyd yn sgil asesiad Pqasso yn cael eu gweithredu ond bosib fod angen cofio petai angen asesiad pellach i'r dyfodol y bydd angen cofnodion fel tystiolaeth ac o bosib fod yn ddoeth cael rhyw fath o dystiolaeth mewn lle pan fo cyfarfodydd yn cael eu gohirio oherwydd diffyg pwyntiau i'r rhaglen.

Y cyfarfod Blynyddol fydd y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd ers i mi dderbyn y rôl hon.

5. **Cefnogi'r Prif Weithredwr**

Yn ystod y cyfnod 'rwyf wedi bod ar gael i gefnogi'r Prif Weithredwr os yw'n dymuno. Hyd yma mae hyn wedi cynnwys Gwerthusiad Blynyddol a darllen dogfen cyn iddi ei chyflwyno. Mae natur gwaith y Prif Weithredwr yn eithaf heriol yn arbennig o gysidro'r angen i herio asiantaethau statudol drwy adroddiadau IRM (Swyddog Adolygu Annibynnol) a'i adolygiad ar gyfer Fforwm Amlasiantaethol Proffesiynol ac 'rwyf ar gael i'w chefnogi petai'n dymuno hynny ar adegau perthnasol.

6. **Cwynion a Sylwadau**

Ni fu unrhyw gŵyn yr oedd angen ymchwilio iddi yn ystod y cyfnod hwn.

7. **Casgliadau**

Yn ystod y cyfnod hwn ni fu i'r Bwrdd ofyn i mi gario allan unrhyw ddyletswydd arbennig ac o bosib fod lle i chwi gysidro'r hyn yr hoffech ei gael o'r rôl o Ymgynghorydd Annibynnol yn ystod y flwyddyn hon. Diolch i chwi am ymddiried y swydd hon i mi.

Iona Griffith

Ymgynghorydd Annibynnol

Medi 2022

# Y BONT

CYFRIFON ARIANNOL AM Y FLWYDDYN I'R 31ain MAWRTH 2022

Rhif Elusen:- 517629

A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON

# Y BONT

## CYFRIFON ARIANNOL AM Y FLWYDDYN I'R 31ain MAWRTH 2022


| | |
|---|---|
| Adroddiad Yr Arholwr Annibynnol | 1 |
| Datganiad O'r Gweithgareddau Ariannol | 2 |
| Mantolen | 3 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 4 - 7 |

**Adroddiad Arholwr Annibynnol I Ymddiriedolwyr Y Bont**

Rhoddaf adroddiad ar gyfrifon Y Bont am y flwyddyn i'r 31ain Fawrth 2022 ar dudalennau 2 i 7.

**Cyfrifoldebau sydd yn briodol i'r Ymddiriedolwyr Ar Arholwr Annibynnol**

Chwi fel Ymddiriedolwyr yr elusen sydd yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon, yr ydych yn ystyried nad yw'r gofyniad i gynnal archwiliad yn gymwys, a bennir yn o dan adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau 2011 (Y Ddeddf 2011) ac y bod angen arholiad annibynnol.

Mae incwm gros yr elusen yn uwch na £250,000 ac rwyf yn gymwys i ymgymryd a'r arholiad annibynnol trwy fod yn aelod cymwys o'r Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yn Lloegr a Chymru.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

-arholi'r cyfrifon o dan adran 145 o ddeddf 2011;

-dilyn y trefniannau a roddir yn y Cyfarwyddiad Cyffredinol gan Gomisiynwyr Yr Elusennau dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011; ac

-datgan os daeth materion penodol i'm sylw.

**Sail adroddiad yr Arholwr Annibynnol**

Gwnaed yr arolwg yn ôl y Canllawiau Cyffredinol a roddwyd gan Gomisiynwyr yr Elusennau. Mae'r arolwg yn cynnwys adolygu cofnodion y cyfrifon a gedwir gan yr Elusen a chymharu'r cyfrifon sydd yn cael eu cyflwyno gyda'r cofnodion. Mae'n cynnwys hefyd ystyriaeth o unrhyw eitem anghyffredin neu ddadleniadau yn y cyfrifon a cheisiwyd cael eglurhad gennych chi fel Ymddiriedolwyr ynglyn ag unrhyw faterion o'r fath. Ni fydd y ffurf a gymerir gennyf yn rhoi'r holl dystiolaeth a fuasai ei angen mewn archwiliad, ac felly nid wyf yn datgan barn a yw'r cyfrifon yn cyflwyno 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodwyd yn y datganiad isod.

**Datganiad yr Arholwr Annibynnol**

Yn gysylltiedig â'r arolwg a wnaed gennym ni ddaeth dim i'm sylw:

(1) sydd yn rhoi achos rhesymol i mi gredu nad yw, mewn unrhyw fodd o bwys yr anghenion wedi eu cadw ynglyn a:

(i) cadw cofnodion cyfrifyddol yn unol ag Adran 130 o Ddeddf 2011; ac

(ii) i baratoi cyfrifon sydd yn cydfynd a'r cofnodion cyfrifyddol ac sydd yn ufuddhau i ofynion cyfrifyddol Ddeddf 2011.

(2) Nid oes unrhyw fater yn fy marn sydd angen tynnu sylw iddo er mwyn rhoi dealltwriaeth llawn o'r cyfrifon.

Dyddiad: 22/11/2022

B Hughes FCA
A. Hughes Jones Dyson A'u Cwmni.
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Capel Moreia
South Penrallt
Caernarfon.

# Y BONT

## Datganiad O'r Gweithgareddau Arlannol Am Y Flwyddyn i'r 31ain Mawrth 2022

| | Nodiadau | Cronfeydd Heb eu Cyfyngu | Cronfeydd Wedi eu Cyfyngu | **Cyfanswm 2022** | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | £ | £ | **£** | £ |
| Cymynroddion a Rhoddion | 3 | 12,685 | - | **12,685** | 248 |
| Gweithgareddau Masnachu Eraill | 5 | 1,500 | - | **1,500** | 1,354 |
| Incwm buddsoddiadol | | 58,833 | - | **58,833** | 66,952 |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | 531,960 | - | **531,960** | 420,563 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 604,978 | - | **604,978** | 489,117 |
| **Gwarlant** | | | | | |
| Codi Arian | 7 | 26,008 | - | **26,008** | 25,845 |
| Gweithgareddau Elusennol | 6 | 453,476 | - | **453,476** | 421,898 |
| **Cyfanswm Gwarlant** | | 479,484 | - | **479,484** | 447,743 |
| **Incwm Net** | | 125,494 | - | **125,494** | 41,374 |
| Enillion/(Colledion) buddsoddiadol | | 277,215 | - | **277,215** | 660,744 |
| **Symudiad Net Mewn Cronfeydd** | | 402,709 | - | **402,709** | 702,118 |
| **Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | | 3,650,718 | 339,203 | **3,989,921** | 3,287,803 |
| **Cronfeydd i Gario Ymlaen** | | 4,053,427 | 339,203 | **4,392,630** | 3,989,921 |

# Y BONT

## Mantolen ar 31ain Mawrth 2022

| | Nodiadau | 2022 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau sefydlog cyffyrddadwy | 8 | | **6,362** | | 7,173 |
| Buddsoddiadau | 11 | | **4,175,943** | | 3,865,919 |
| | | | **4,182,305** | | 3,873,092 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | **159,612** | | 163,586 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **60,353** | | 45,571 | |
| | | **219,965** | | 209,157 | |
| **Rhwymedigaethau** | | | | | |
| Symiau dyledus o fewn un flwyddyn | 10 | **9,640** | | 92,328 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | **210,325** | | 116,829 |
| **Asedau net** | 14 | | **4,392,630** | | 3,989,921 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Heb eu cyfyngu | | | **4,053,427** | | 3,692,092 |
| Wedi eu cyfyngu | 13 | | **339,203** | | 339,203 |
| | | | **4,392,630** | | 4,031,295 |

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 22 Tachwedd, 2022 ac arwyddwyd ar eu rhan gan

G. H. Jones
Ymddiriedolwr

John M Pritchard
Ymddiriedolwr

**Nodiadau I'r Cyfrifon Am y Flwyddyn i'r 31ain Mawrth 2022**

## 1 Polisiau cyfrifyddol

*Cyffredinol*

Paratowyd y cyfrifon yn ôl y confensiwn cost hanesyddol, wedi ei addasu trwy ail-brisio rhai asedau sefydlog. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi yn unol a'r Datganiad Arferion Cyfrifo: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011.
Wrth baratoi y cyfrifon mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried pan yn ymroi i'r polisiau cyfrifo sy'n ofynol gan FRS 102 ar SAA FRS 102 i Elusennau a oedd angen ailddatgan y ffigyrau cymharol. Nid oedd angen ailddatgan.

Mae grantiau yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn dderbyniadwy.

Mae adnoddau sydd yn cael eu gwario yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn ddyledus ac yn cynnwys TAW na all yr Elusen ei hawlio yn ôl.
Mae adnoddau a wariwyd ar Gronfeydd wedi eu Cyfyngu yn ymwneud a gwariant uniongyrchol ar y prosiectau hynny yn unig.

*Dibrisiant*

Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog ar y gyfradd ganlynol,yn seiliedig ar amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, a'u gwerth gweddilliol disgwyliedig:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar | 20% o'r gwerth gostyngol |
| Cyfrifaduron | 25% o'r gwerth gostyngol |

*Buddsoddiadau*

Cynhwysir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth marchnadol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhwysir llogau a difidendau fel incwm buddsoddiadol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2 Cydnabyddiaeth

| | **2022** | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Gweithwyr Cyflogedig | **295,777** | 290,232 |
| Yswiriant Gwladol | **27,554** | 23,311 |
| Pensiwn Cyflogwr | **17,564** | 16,554 |
| Arholiad Annibynnol | **1,788** | 1,728 |

Ar gyfartaledd, nifer y gweithwyr cyflogedig oedd 12 (2021 11).

| 3 | Cymynroddion a rhoddion | Cronfeydd Heb eu Cyfyngu | Cronfeydd Wedi eu Cyfyngu | **Cyfanswm 2022** | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| | Eglwysi a Henaduriaethau | 185 | - | **185** | 248 |
| | Cymynroddion a Rhoddion | 12,500 | - | **12,500** | - |
| | | 12,685 | - | **12,685** | 248 |

| 4 | Incwm o Weithgareddau Elusennol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| | Incwm Datrys Gwrthdaro | 253,977 | - | **253,977** | 249,697 |
| | Incwm Prosiectau | 143,199 | - | **143,199** | 21,390 |
| | Ffioedd Proffesiynol | 134,744 | - | **134,744** | 139,409 |
| | Incwm Arall | 40 | - | **40** | 10,067 |
| | | 531,960 | - | **531,960** | 420,563 |

| 5 | Gweithgareddau Masnachu Eraill | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| | Rhent | 1,500 | - | **1,500** | 1,354 |
| | | 1,500 | - | **1,500** | 1,354 |

| 6 | Gwariant Ar Weithgareddau Elusennol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| | Cyflogau a Pensiwn | 340,895 | - | **340,895** | 330,097 |
